PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 10 | Mawrth 7, 2024 | 50c.

## Hwb Trafod Cydenwadol ym Maenclochog



Cynhaliwyd yr ail Hwb Trafod Cydenwadol yn neuadd Maenclochog ar ddydd Sadwrn, 17 Chwefror, ac roedd hi'n galondid i weld nifer dda wedi troi allan ar brynhawn mor wlyb a gaeafol.

Ar ôl i'r llywydd, y Parchg Eirian Wyn, ein croesawu a'n harwain mewn addoliad, cafwyd pregeth berthnasol ac amserol gan y Parchg Rhosier Morgan. Cymharodd ein heglwysi i frandiau byd busnes – rhaid i bobl ein hadnabod, ac er ei fod yn anodd gwerthu rhywbeth na ellir ei weld, sef achubiaeth trwy Iesu Grist, rhaid cyflawni rhywbeth nawr er mwyn y dyfodol. Nid yw ein harfau mor finiog ag yr oeddynt ac mae'r eglwys wedi colli ei hawdurdod i raddau helaeth, ond mae dal angen yr eglwys ar y byd.

### Eglwys unedig

Sut i gyflawni'r angen hwn oedd byrdwn ail hanner y cyfarfod. Cafwyd cyflwyniad grymus gan y Bnr Hefin Wyn ar ei weledigaeth ef am un eglwys unedig Gymraeg yn Sir Benfro, trwy uno holl eglwysi Cymraeg y sir gyda threfniant canolog a fyddai'n cynorthwyo'r holl gapeli. Yng ngeiriau'r Parchg Ddoctor Cerwyn Davies: 'Mae angen creu cylch o deulu'r ffydd anenwadol wedi ei seilio ar yr hyn sy'n dderbyniol i ni gyd a dechrau o'r dechrau os yw'r dystiolaeth Gristnogol i barhau a ffynnu.

'Yn fy eglwys newydd i nid gweinidog fydde'r pennaeth ond person busnes ac yna tîm o bobl gydag arbenigedd mewn meysydd arbennig gan gynnwys gweinidog. Mae'r dydd o wneud gweinidog yn Sioni pob swydd wedi hen fynd. Dyna fy her. Beth amdani? Rhaid dechrau rhywle.'

Meddai Hefin, **'**Nid yw hynny'n golygu torri'n rhydd ond cryfhau trwy ddatganoli a chael mwy o ddweud dros ein dyfodol ein hunain. Byddai'n rhaid dibynnu ar adnoddau a chydweithrediad yr enwadau yn ganolog. Cydweithio. Rhaid cydnabod nad yw enwadaeth yn golygu dim i'r genhedlaeth iau ond mae'n bosib cyflwyno dysgeidiaeth yr Iesu iddyn nhw. Does yna'r un capel sy'n brin o asedau materol. Ond mae angen meithrin yr asedau ysbrydol.'

### Gweledigaeth

Dilynwyd Hefin gan y Parchg Geraint Morse, a fu'n rhannu ei alwad i gynnal cyrddau yn yr iaith Gymraeg islaw'r Landsker. Ni fyddai hyn yn tarfu ar y drefn bresennol yn ein capeli yma yng ngogledd y sir, ond byddai'n gyfrwng i gyflwyno'r Efengyl yn yr iaith Gymraeg i siaradwyr a dysgwyr yr iaith yn ne'r sir. Gweledigaeth Geraint yw gweld cyrddau tebyg yn nalgylch pob ysgol uwchradd.

Diolchodd y llywydd i'r siaradwyr, a chafwyd trafodaeth fywiog i ddilyn. Mynegodd rhai eu gofid nad oedd y Saesneg a dwyieithrwydd wedi'u hystyried yn ein cynlluniau. Penderfynwyd sefydlu gweithgor, dan ofal Hefin, i drafod a chynllunio'n fwy manwl, a'r gweithgor hwn, yn ôl pob tebyg, fydd yn cynllunio cyfarfodydd yr Hwb yn y dyfodol.

Cafwyd emyn (a mawr yw ein diolch i'r Fns. Wendy Lewis am ganu'r piano mor ddeheuig) a gweddi i orffen ein cyfarfod diddorol, heriol a phositif iawn.

**Ann Morris**
Ysgrifennydd Cyfundeb Annibynwyr Sir Benfro

## CALENNIG HWYR O DRE-LECH!

Ar ôl bod yn rhannu eu hoff rannau o'r Beibl gydag aelodau sy'n methu dod i'r cwrdd ar y Sul neu sy'n byw yn bell, mae aelodau pum capel yn Sir Gâr yn ymestyn yr un cynnig i ddarllenwyr *Y Tyst* a phobol ym mhob man.




Mae cyfrol o weddïau gan blant ysgol Hafodwennog ar gael ar ffurf dogfen PDF. Mae'n gynnyrch ymweliadau Karen Owen â'r ysgol i drafod sut mae siarad gyda Duw yn ein dyddiau ni.

### Iesu a'r Gair

Hefyd ar gael – am ddim – ac ar ffurf ffeil mp3, y mae *Iesu a'r Gair yn llais Sir Gâr,* sef casgliad o leisiau aelodau yn cyflwyno eu hoff adnodau. Mae'n gasgliad o dros 30 o hen ffefrynnau, o Salm 100 i Ddatguddiad 22.

'Mae hi mor bwysig fod pawb yn cael clywed a pherchnogi'r Beibl yn ei acen ei hun,' meddai Karen Owen, gweinidog gofalaeth Tre-lech a chyn-gynhyrchydd rhaglenni crefydd BBC Cymru.

'Fuodd recordio ein lleisiau i safon uchel erioed mor rhwydd ag y mae ar hyn o bryd, ac mae cynnal sesiynau recordio wedi bod yn brofiad cymdeithasol iawn. Dim ots beth oedd dewis ddarnau pawb, doedd yna ddim barnu na sensro ... ac mae yna ambell ddewis annisgwyl.'

Mae Karen yn gofalu am Gapel y Graig, Tre-lech; Capel Pen-y-bont; Ffynnonbedr, Meidrim; Bwlchnewydd a Chapel Cendy. Yng Nghapel Cendy y dewisodd Lleuwen Steffan ddechrau ei thaith o Gymru ar 13 Chwefror.

Os am dderbyn y gweddïau a/neu y darlleniadau, anfonwch at Karen ar dimondkaren@hotmail.com



# Llurig Badrig

*Dyma ail ran erthygl ddiddorol y Parchg Dr Emyr Gwyn Evans*

Priodolir yr emyn cyntefig, 'Llurig Badrig', i Badrig Sant (*c*. 385-*c*. 460). Ai ef, mewn gwirionedd, a'i cyfansoddodd? Dywed Gomer Roberts: 'Dywedir i Badrig lanio yn Iwerddon yn y flwyddyn 432, ac iddo fynd ar ei union i Dara, prif ddinas talaith Meath, lle'r oedd Leary, brenin y dalaith, yn cadw llys. Adeg y Pasg oedd hi, pryd y cynhelid un o gynadleddau mân frenhinoedd yr ynys. Safodd Padrig a'i gymdeithion wrth fynydd Slane, ger afon Boyne, ryw ddeng milltir o Dara, a chyneuwyd ffagl fawr yno'r noson cyn y Pasg. Gorchmynasid yn Nhara nad oedd neb pwy bynnag i gynnau tân y noson honno, ar boen marwolaeth, hyd oni chyneuwyd y goelcerth frenhinol ar bwys y plas. Gwelwyd y golau ar fynydd Slane, ac ymgynghorodd y Brenin Leary â'i dderwyddon ynghylch y peth. Ateb y derwyddon oedd, 'Oni ddiffoddi di'r tân acw yn ebrwydd ni ddiffoddir mono byth; bydd cyn-heuwr y tân yn sicr o orchfygu a thynnu holl werin y deyrnas ar ei ôl.' Ffromodd y brenin, a gorchmynnodd baratoi ei gerbydau a chyrchu ar unwaith i'r mynydd gyda dau o'i brif dderwyddon. Pan welodd Padrig hwy'n nesáu, canodd yr ugeinfed Salm o Ladin y Fwlgat; ac yna canodd y geiriau a adwaenir fel 'Llurig Badrig', a hynny yn yr iaith Wyddeleg. Dywed traddodiad hefyd i filwyr y brenin dybied mai ceirw gwylltion oedd Padrig a'i wŷr, ac o'r herwydd adwaenir 'Llurig Badrig' wrth yr enw 'Cri y Ceirw'. Wedi darllen y stori, mynnwch ddarllen Salm 20 oherwydd roedd Padrig yn sicr yn gwybod ei Feibl.

### Y Salmau

Caiff y Salmau o ran eu cynnwys yn aml eu cydnabod fel geiriau pobl Dduw yn siarad gyda Duw, ac, wrth wneud ei safiad, mae lle i gredu os mai gweddïo geiriau Salm 20 ar ei gyfer fel llysgennad ei Dduw wnaeth Padrig ar y pryd, bod Duw wedi clywed ei ddeisyfiadau ac wedi eu hateb. Mae'n amlwg fod Padrig wedi ennill brwydr fawr ac i'w fywyd gael ei arbed. Yn ôl traddodiad Gwyddelig fe lwyddodd wedi hyn i ennill yr holl wlad i'r ffydd Gristnogol a hynny mewn dim o amser. Ac onid arwydd a chydnabyddiaeth o ddyled yr Eglwys Gristnogol yn Iwerddon i'w waith arloesol yn plannu Cristnogaeth yn y wlad yw iddo gael ei dderbyn yn nawddsant Iwerddon? Ai trwy ddulliau heddychol y llwyddodd yn ei genhadaeth, ni fedraf ateb, ond hoffwn feddwl mai trwy arfogi ei hun ag arfogaeth ysbrydol y cenhadodd Padrig a hau had yr Efengyl Gristnogol yn y tir (gweler Effesiaid 6:10-20). Enillwyd y wlad i raddau helaeth i'r ffydd Gristnogol, ac yn ôl yr hanes, cyn glaniad y Llychlynwyr yn Iwerddon yn 795, wnaeth aflonyddu'r wlad gan ei rheibio, fel y gwnaeth y Normaniaid o 1169 ymlaen, yr oedd Iwerddon wedi mwynhau cyfnod a ystyrid fel oes aur yn gelfyddydol ac yn ddiwylliannol yn hanes y wlad.


Gwyddom am Iwerddon fel gwlad sydd wedi wynebu helbulon ymladd a rhyfela aml rhwng gwahanol lwythau a charfannau oddi fewn i'r ynys, a hynny dros y canrifoedd. Hoffwn feddwl mai cyfnod mwy heddychol yn hanes y wlad a fwynhawyd trwy ffrwyth llafur efengylu a chenhadu Padrig Sant yn y wlad. Ac wrth feddwl am hyn, mae'n braf hefyd medru meddwl mai un o wehelyth seintiau Celtaidd y Brythoniaid a Chymru oedd Padrig Sant.

**Emyr Gwyn Evans**




*Cerflun o Sant Padrig ar fynydd Tara, swydd Mead yn Iwerddon*

# CODAU CYFRIN




Tybed a ydych chi erioed wedi cael eich denu gan syniadau ynghylch codau cyfrin yn y Beibl? Honnir bod codau cyfrin yn britho'r Beibl. Ond a oes sylwedd i'r honiadau hyn?

Clywsom am nofel Dan Brown (*The Da Vinci Code*) ond cyfrol ddychmygol yw hon. Yn hytrach yr hyn sydd dan sylw yw damcaniaethau fel y *Torah Code*. Yn ôl y ddamcaniaeth hon sillefir y gair 'Torah' (y gair Hebraeg am 'Gyfraith') wrth gyfrif pob hanner canfed llythyren yn Genesis. Ymhlith damcaniaethau eraill fe honnir y rhagfynegir digwyddiadau'r dyfodol mewn codau cyfrin yn y Beibl, e.e. yn ôl y Rabbi Matityahu Glazerson rhagfynegwyd y firws Corona yn llyfr Leficticus ac etholiad Donald Trump fel Arlywydd UDA yn llyfr Eseia.



Mae'r damcaniaethau hyn yn seiliedig ar ddull dadansoddi o'r enw *Equidistant Letter Sequence* (ELS). Yn ôl y dull hwn a hyrwyddwyd gan y mathemategydd Eliyahu Rips cyfrifir llythrennau gwasgaredig i ganfod negesau cuddiedig yn y Beibl. Poblogeiddiwyd codau cyfrin gan Michael Drosnin yn ei lyfr *The Bible Code*. Hwylusir y dull hwn o ddadansoddi gan raglenni cyfrifiadurol.

*parhad ar y dudalen gefn*

Yr Adran Gydenwadol

MAWRTH 7 2024 RHIF 158

# Rhyfel rhwng Rwsia ac Wcráin – dwy flynedd yn ddiweddarach

Ar Chwefror 24ain eleni, nodwyd diwedd ail flwyddyn y rhyfel rhwng Rwsia ac Wcráin. Mae'n siŵr bod eglwysi ar draws y byd wedi eiriol o blaid heddwch a diweddu'r gyflafan yn eu gweddïau. Pa fodd mae dirnad natur gweddïau eglwysi Wcráin a Rwsia? Pwy ohonom a all roi ein hunain yn y man lle y maent hwy? Byddant yn gweddïo dros ddiwedd y rhyfel, heb os, ond ar ba fath o delerau? Byddai eiriolaeth yr Wcraniaid am gael eu harbed yn naturiol ac eiriol dros eu hanwyliaid a'u cydnabod, mae'n siŵr. Byddant hefyd yn gweddïo dros weld eu gwlad yn cael ei hailadeiladu, a chwilio am greu trefn o'r anhrefn, am ailstrwythuro economi a phob gwedd wleidyddol oddi mewn ac oddi allan i'w gwladwriaeth. Dychmygwn eglwysi Rwsia yn eiriol dros eu milwyr, ac am fuddugoliaeth, ond prin bod trigolion holl daleithiau Rwsia yn ymwybodol o amcanion Mr Putin.

Bydd yr eglwysi yn gofyn pa fodd y gellir gweld ffordd ymlaen ar ôl dwy flynedd gyda miloedd ar filoedd o bobl wedi eu lladd. Ar 19–21 o fis Hydref 2023, cynhaliwyd cynhadledd Fedyddiedig yn Warsaw yng Ngwlad Pwyl gan gynnwys cynrychiolaeth o Wcráin, Gwlad Pwyl, Estonia, Prydain, Awstria, Yr Almaen, Ffrainc a'r Iseldiroedd. Thema'r gynhadledd oedd "Cariad, Gwirionedd ac Undod", ac yn y sesiwn gydag Alan Donaldson, ceisiwyd ystyried sut oedd darganfod gobaith mewn adfyd. Yr her i Undeb Bedyddwyr Ewrop oedd deall yn well sut i ddangos cefnogaeth i Fedyddwyr Wcráin, heb elyniaethu Bedyddwyr Rwsia. Bu cyfnod arall o dan



Llun: Max Kukurudziak, unsplash.com

arweiniad Helen Paynter o Fryste yn gofyn beth oedd yr arweiniad beiblaidd i'r her o ymgodymu gyda phoen a dioddefaint. Y ddau siaradwr olaf oedd Joshua Searle ac Oleksandr Geychenko, y naill yn Sais ac yn dweud bod angen ailedrych ar beth yw goblygiadau pasifistiaeth, tra oedd yr Wcreiniad yn dweud bod yr eglwys y perthynai ef iddi angen deall beth yw ystyr cymod ac undod eglwysig. Pwy a ŵyr y buaswn i'n holi'n ddwfn taswn i'n byw yn Wcráin, a gweld cymaint o chwalu cymunedau ac adeiladau?

Mae'r drafodaeth yn parhau. Mae'r Eglwys Uniongred yn Rwsia wedi bod yn gyson wrth gefn y llywodraeth ac mewn rhyw fesur o ddealltwriaeth gyda Mr Putin. Mae'n annhebyg y gall anghydffurfwyr mewn gwledydd Ewropeaidd ddychmygu cyfyngiadau a bygythiadau'r wladwriaeth i'r cyrff crefyddol yn Rwsia. Mae'n ddiddorol cymharu ceidwadaeth ddiwinyddol a gwleidyddol Rwsia â cheidwadaeth a daliadau diwinyddol a moesol y Gweriniaethwyr yn UDA. Dywedodd Mr Trump y gallai ddatrys sefyllfa Wcráin mewn diwrnod. Am ddweud smala ac anghyfrifol.

Ar 16 Chwefror, cyhoeddwyd bod Alexei Navalny wedi marw yn y carchar, yn dangos bod dwrn dur Rwsia yn ddidostur a digyfaddawd. Dywedir bod yr Arlywydd Putin wedi awdurdodi lladd Navalny, i roi terfyn ar y trafodaethau i'w gyfnewid gyda dau Americanwr am asasin o Rwsiad a laddai ar orchymyn y KGB. Mae'n hawdd beirniadu llywodraeth unbeniaethol i bob diben, o foethusrwydd cadair gysurus yng Nghymru, peth arall yw gwneud hynny o gell fel y gwnâi Navalny. Ni wn beth oedd ei ddaliadau crefyddol, ond aeth ef, fel Bonhoeffer, yn ôl i'r ffwrnais dân gan wybod beth fyddai'n debygol o ddigwydd.

Wrth weld trydedd flwyddyn y rhyfel yn agor o'n blaen, mae rhai o lywodraethau Ewrop yn dal 'nôl rhag ariannu a darparu arfau i Wcráin. Bydd eraill yn cydnabod na allant ymuno yn y rhyfel eu hunain, ac mae Prydain a Ffrainc wedi ymdynghedu i gefnogi'r Wcráiniaid i'r dyfodol. Gadael i Rwsia gael tir Dwyrain Wcráin fydd ateb Mr Trump, ond beth yw ein barn ni am ryfel nad yw'n ennill na cholli tir? Gwyddom nad oes buddugoliaeth wirioneddol mewn unrhyw ryfel. Un genedl yn unig sy'n arogli mwg y taflegrau, cyfrif y cyrff sy'n dychwelyd adref a wna'r Rwsiaid, a chydnabod y gost ariannol fydd y gwledydd Ewropeaidd ac America yn ei wneud. Wrth deimlo llaid galar a dinistr ar ein hesgidiau, gweddïwn yn daerach ar i Dduw yn ei ras faddau erchylltra dynion ac arwain pobl at lwyfan cymod.

*Denzil I John*

Estynnir croeso cynnes i chi ymuno â ni ar gyfer

**Cwrdd Sefydlu'r**

**Parchg Beti-Wyn James BD, MTh**

Gofalaeth Y Priordy, Caerfyrddin (A), Cana (A) a Bancyfelin (EBC)

yn Weinidog i Iesu Grist

yn

Eglwysi Elim, Ffynnon-ddrain (A) a Heol Awst (A)

**Nos Wener, 12 Ebrill 2024**
**am 6.00 o'r gloch**
**yng Nghapel Heol Awst**

Ar ran Heol Awst:
Nigel George,
2 Parc Cilddewi,
Tre-Ioan,
Caerfyrddin,
SA31 3HP

Ar ran Elim:
Roland Jeremy
37 Dôl Y Dderwen,
Llangain
Caerfyrddin
SA33 5BE

**SEFYDLIR GOFALAETH NEWYDD TRWY'R UNIAD HWN 'GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN'**

**CROESO CYNNES I BAWB**

Darperir lluniaeth wedi'r oedfa

# Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 4 Lleoli

### Gofyn Ymlaen Llaw: cwestiwn i'w ystyried cyn y sesiwn hon

A fedrwch chi feddwl am le sy'n arbennig i chi? Gall fod yn rhywle lle rydych chi'n byw nawr neu y buoch chi'n byw neu wedi ymweld ag e yn y gorffennol. Pam bod y lle hwn mor bwysig ichi?

### Darlleniad o'r Ysgrythur: Marc 2.13-17

Aeth Iesu allan at y llyn unwaith eto. Daeth tyrfa fawr o bobl ato, ac roedd yn eu dysgu. Yna wrth fynd yn ei flaen, gwelodd Lefi fab Alffeus yn eistedd yn y swyddfa dollau lle roedd yn gweithio. "Tyrd, dilyn fi," meddai Iesu wrtho; a chododd Lefi ar unwaith a mynd ar ei ôl.

Yn nes ymlaen aeth Iesu a'i ddisgyblion am bryd o fwyd i dŷ Lefi. Roedd criw mawr o'r rhai oedd yn casglu trethi i Rufain yn y parti hefyd, a phobl eraill roedd y Phariseaid yn eu hystyried yn 'bechaduriaid'. (Pobl felly oedd llawer o'r rhai oedd yn dilyn Iesu.) Wrth iddyn nhw ei weld e'n bwyta gyda 'pechaduriaid' a chasglwyr trethi, dyma rai o'r Phariseaid oedd yn arbenigwyr yn y Gyfraith yn gofyn i'w ddisgyblion: "Pam mae e'n bwyta gyda'r bradwyr sy'n casglu trethi i Rufain, a phobl eraill sy'n ddim byd ond 'pechaduriaid'?"

Clywodd Iesu hyn, a dwedodd wrthyn nhw, "Dim pobl iach sydd angen meddyg, ond pobl sy'n sâl. Dw i wedi dod i alw pechaduriaid, dim y rhai sy'n meddwl eu bod nhw heb fai."

> **Mae 110 miliwn o bobl yn y byd heddiw wedi'u gorfodi o'u cartrefi a'u dadleoli trwy rym.**
> **(Ffynhonnell: Uwch-gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid)**
> **Mae gan fabi bach a enir yn fachgen yn un o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yn y DU yn 2020 ddisgwyliad oes sy'n 10 mlynedd yn fwy na bachgen a enir yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. I enethod, mae'r gwahaniaeth yn 8 mlynedd.**
> (Ffynhonnell: Cronfa'r Brenin)

Dewch inni feddwl gyda'n gilydd ynglŷn â lle rydyn ni wedi'n lleoli/ein gosod ar hyn o bryd. Ble rydych chi nawr? Ble rydych chi'n byw? Sut gymuned sydd ganddoch chi? Pa ddewisiadau ddaeth â chi yma?

Mae rhai ohonon ni'n mwynhau graddfa o hyblygrwydd o ran lle rydyn ni'n lleoli ein hunain. Mae ganddon ni rywfaint o ryddid dros ble rydyn ni'n rhentu neu brynu cartref, lle byddwn ni'n siopa'n rheolaidd, lle byddwn ni'n dewis mynd ar wyliau.

I eraill yn ein mysg, prin, os o gwbl, ydy'r rhyddid sydd ganddyn nhw yn y materion hyn.

**Yn y sesiwn hon, fe fyddwn ni'n meddwl gyda'n gilydd ynghylch lle y dewisodd Iesu i'w leoli ei hun ac am ein profiad ninnau o le a chymuned.**

**A wnaethoch chi erioed sylwi faint o weithiau yn yr Efengylau y gwelir Iesu nid yn y lle y "dylai" neu y "disgwylir iddo" fod?**

Pan anwyd Iesu, mae'r doethion yn mynd i balas Herod, gan ddisgwyl mai yno y byddai cael hyd i fabi brenhinol, neu o leiaf newyddion am ei leoliad. Doedden nhw ddim yn rhagweld y byddai'r brenin newydd yn cysgu mewn stabl ar stryd gefn ym Methlehem.

Yn hytrach na dychwelyd i'w cartref yn Nasareth, gorfodwyd Mair, Joseff a'u babi i adleoli fel ffoaduriaid, gan ffoi i'r Aifft i ddianc rhag trais Herod.

Fel plentyn, fe gollodd ei deulu olwg ar Iesu wrth iddyn nhw deithio'n ôl o Jerwsalem, gan ddod o hyd iddo (yn annisgwyl i bawb) yn addysgu yn y deml.

Yn ein darlleniad uchod, bellach yn oedolyn, mae Iesu'n synnu rhai pobl wrth ei weld yn rhannu pryd o fwyd yn nhŷ casglwr trethi. Yn yr un modd, pan fo'n mynd i mewn i dŷ Sacheus: 'Doedd y bobl welodd hyn ddim yn hapus o gwbl! Roedden nhw'n cwyno a mwmblan, "Mae wedi mynd i aros i dŷ 'pechadur' – dyn ofnadwy!"' (Luc 19.7)

P'un a oedd yr ymateb yn un o syndod neu feirniadaeth, mae yna ryw ymdeimlad yn yr hanesion hyn bod **Iesu yn rhywun "nad oedd yn gwybod ei le"**. Mae yna hierarchaethau a disgwyliadau nad ydy e'n cadw atyn nhw. Does dim disgwyl i frenhinoedd orfod cysgu yng nghwmni anifeiliaid fferm. Dydy plant ddim i fod i addysgu gydag awdurdod yn y deml. Ddylai arweinydd crefyddol ymwrthod â chysylltu â *phobl fel'n*a ac yn bendant, ddylen nhw ddim derbyn gwahoddiad i'w cartref.

Dewch inni gymryd golwg ar yr hyn mae Iesu'n ei ddweud pan fo'r ysgrifenyddion yn ensynio nad ydy e lle y "dylai" fod. "Pam mae eich athro yn bwyta gyda'r bradwyr sy'n casglu trethi i Rufain a phobl eraill sy'n ddim byd ond 'pechaduriaid?" gofynnen nhw. Dyma Iesu'n eu hateb nhw'n ôl ynglŷn â'r syniad yma fod rhai pobl o bosib yn cael eu gweld yn 'bechaduriaid', tra bo eraill efallai'n cael eu hystyried yn 'gyfiawn'. Mae ei ymateb yn awgrymu nad rhyw dasg syml ydy ymrannu pobl yn ddau grŵp fel mae'r ysgrifenyddion yn ei feddwl. "Dim pobl iach sydd angen meddyg, ond pobl sy'n sâl." **Pwy fase'n ddigon hyderus i ddatgan nad ydyn nhw byth yn 'sâl'? Pwy sy'n ddigon siŵr nad ydyn nhw erioed wedi bod angen doctor i'w gwella, neu na fyddan nhw byth angen doctor?**

> **'[Iesu]'n bwyta gyda chasglwyr trethi a phechaduriaid ... nid ar ddamwain y mae hyn yn digwydd ... yn hytrach, mynegiant o wir fod Duw'**
> **James H. Cone, *A Black Theology of Liberation*, 1970**

Ceir cysylltiad yma gyda hanes y ferch a ddygwyd gerbron Iesu yn Ioan 8.7. Fe'i daliwyd yn godinebu a dyma Iesu'n gofyn beth ddylid ei wneud â hi. Ei ateb ydy: "Os oes un ohonoch chi ddynion erioed wedi pechu, taflwch chi'r garreg gyntaf ati hi." Chododd neb flaen bys hyd yn oed. Mae'r ffiniau y mae'r ysgrifenyddion yn ceisio'u tynnu er mwyn sicrhau fod pawb yn gwybod eu lle yn cael eu galw i gwestiwn yn barhaus gan Iesu. Mae Iesu'n un sy'n styrbio neu'n tarfu ar drefnusrwydd y 'ni' a 'nhw', y 'rhai ar y tu mewn' a'r 'rhai ar y tu allan', mannau y dylid bod a mannau y dylid eu hosgoi.

Wrth gwrs, dydy Iesu ddim yn digwydd troi i fyny mewn mannau yr ystyrir yn anaddas i arweinydd crefyddol – mae'n fwriadol yn chwilio amdanyn nhw.

Mae James H. Cone, arloeswr mewn cysylltu'r farn Gristnogol gyda phrofiad byw cymunedau du, yn tanlinellu pwysigrwydd y mannau y dewisodd Iesu ei osod ei hun. Mae Iesu'n ei uniaethu ei hun â'r rhai hynny a ormeswyd ac a wrthodwyd gan strwythurau cymdeithasol ac economaidd, ac yn ei osod ei hun yn eu mysg: y rhai hynny mewn tlodi, y rhai a labelir yn 'bechaduriaid', y rhai hynny a gaewyd allan o goridorau grym. Mae'n ymwneud â nhw, yn ymuno ac yn rhannu eu profiad, yn bwyta, yfed, ac yn byw gyda nhw. Mae'n agored i'r un systemau anghyfiawn, hyd yn oed i'r eithaf o gael ei gondemnio a'i ddedfrydu i farwolaeth.

Dydy galwad Iesu i edifeirwch, meddai Cone, ddim yn syml yn fater o ddifaru unigol am y pethau hynny wnaethon ni'n anghywir. Mae'n ymwneud â pharodrwydd i fyw fel rhywun sydd yn anelu at wireddu teyrnas Dduw, yma nawr.

**'Edifarhau', ysgrifennai Cone, 'ydy cadarnhau realaeth y deyrnas… Y deyrnas ydy rheol Dduw yn torri trwodd fel pelydryn goleuni, yn trawsfeddiannu'r grymoedd sy'n caethiwo bywydau pobl.'**

Pan fo Iesu yn y mannau lle na "ddylai" fod, mae hynny er mwyn dangos inni mai dyma lle y gellir cael hyd i'r deyrnas. Yn y mannau

### *Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 4 Lleoli*

*(parhad o dudalen 2)*

hyn, mae gan gariad, goleuni a rhyddid gwaith Duw y grym i chwalu gormes, dymchwel hierarchaethau ac iacháu rhaniadau.

**Dewch inni ddychwelyd at y cwestiwn ynglŷn â ble rydych chi wedi eich lleoli/ eich gosod heddiw.**

**Pa ryddid sydd ganddoch chi i ddewis lle rydych chi'n lleoli eich hun? Ymhle ydych chi'n meddwl y base Iesu'n lleoli ei hun yn eich cymuned?**

**Gwrandewch ar : Zanele Makombe, Act Ubumbano, De Affrica**

Gwrandewch yn https://soundcloud.com/actonpoverty (7munud)

Mae Zanele Makombe yn Gynghorydd Rhaglenni iechyd a hawliau rhyweddol, rhywiol ac atgenhedlol gydag Act Ubumbano. Rhwydwaith ydy Act Ubumbano o fudiadau datblygu, yn seiliedig ar ffydd, yn Ewrop a Deheudir Affrica, sy'n gweithio dros gyfiawnder cymdeithasol, amgylcheddol a rhyweddol ledled nifer o wledydd Affrica.

Mae Zanele'n siarad am y grym sydd gan gymunedau i weithredu dros newid, gyda'r gefnogaeth iawn. Mae hi'n trafod yr alwad i wasanaethu'n gilydd fel bodau dynol ac i herio unrhyw gau allan ac ymraniadau.

Mae Zanele'n crybwyll y cyfnodau hynny o **'brofi presenoldeb Duw'** pan fo hi'n gweld ei gwaith a'i ffydd yn cyd-asio wrth wasanaethu ei chymdogion. **A ydych chi wedi cael cyfnodau o 'brofi presenoldeb Duw' fel hyn lle gwnaethoch chi synhwyro pwrpas wrth wasanaethu Duw?**

**I ble'r ewch chi pan fyddwch chi'n ceisio gwrando ar yr hyn sydd gan Dduw i'w ddweud? A oes lleoedd yn eich cymuned sy'n eich helpu i wneud hynny?**

**Gwrandewch ar: Parch Ddr Al Barrett, Rheithor Eglwys Hodge Hill, Birmingham, a Clare McLean, Ymgysylltydd Stryd a chydarweinydd Eglwys FAB**

Gwrandewch yn https://soundcloud.com/actonpoverty (7munud)

Mae'r Parch Ddr Al Barrett a Clare McLean yn siarad am eglwys a chymuned yn Hodge Hill, ardal o Birmingham sydd wedi profi amddifadedd arwyddocaol. Cewch glywed gan Clare am ei phrofiadau o adeiladu cysylltiad rhwng cymdogioon fel Cysylltydd Stryd. Mae Al a Claire yn trafod y canfyddiadau am ardaloedd lle ceir lefelau tlodi uchel, y ffyrdd y gall cymunedau gael eu galluogi i lefaru dros newid a rôl yr eglwys ym mywyd y gymuned. **Beth ydy eich ymateb i'r syniad a godir gan Al ynghylch 'digonedd cuddiedig' mewn cymunedau? Beth sy'n helpu i adeiladu cyswllt rhwng aelodau eich cymuned?**

**Ysbrydoliaeth: South London Mission, Bermondsey**

Gwyliwch ein ffilm fer (4 munud) yma: https://www.youtube.com/watch?v=655U5mG3DHM

Mae Winnie a Peter Baffoe o'r South London Mission yn dangos inni sut maen nhw'n defnyddio Seibiant, Adfywiad, a Chwyldro – gyda'u cymuned i ddatblygu newid sy'n parhau. Mudiad cymunedol Methodistaidd ydy'r South London Mission a fu'n gweithredu ers 1889.

Ar hyn o bryd, mae'r genhadaeth yn profi anghydraddoldeb incwm arwyddocaol a chynyddol yn ei hardal leol. Mae'r fideo hwn yn rhoi cipolwg ysbrydoledig ar y modd y mae eu prosiectau a'u partneriaethau yn mynd i'r afael â hyn.

**Taclo Tlodi - Beth fasech chi a'ch eglwys yn gallu'i wneud?**

**Gweithredu:** Penderfynwch sut ydych chi am rannu'r hyn fuoch chi'n ei drafod yn y sesiwn hon (ac mewn sesiynau blaenorol, os ydych chi'n dilyn y cwrs llawn). Gall hyn fod o fewn eich eglwys, yn eich cymuned, a/neu gyda'ch cynrychiolydd seneddol. **Beth fyddai'r cam cyntaf i'ch eglwys o ran rhannu'n ehangach y neges fod yn rhaid inni weithredu ar dlodi nawr?**

Fe allech:

- Siarad ag eraill yn eich eglwys am eich profiad gyda Taclo Tlodi neu sgwennu darn i gylchlythyr neu wefan eich eglwys.
- Dechrau cynllunio sut fyddwch chi'n codi tlodi fel mater i'w drafod gyda'ch cynrychiolydd seneddol neu ddarpar ymgeiswyr seneddol. Fe allech chi wneud hyn trwy e-bostio neu ffonio eu swyddfa am apwyntiad. Cofiwch, medrwch gael hyd i bwy ydy eich AS yma: https://members.parliament.uk/findyourmp

  Ac fe allwch chi gael hyd i bwy ydy eich darpar-ymgeiswyr seneddol yma: https://whocanivotefor.co.uk/ppcs/

  Medrwch hefyd edrych ymlaen at rannau 5 a 6 o'r cwrs Taclo Tlodi am fwy o awgrymiadau ynghylch sut i ohebu'n effeithiol gyda'ch AS.

  
  
- Gwnewch yr angen am weithredu ar dlodi'n amlwg trwy archebu baner Let's End Poverty (a welir uchod) a'i harddangos yn eich eglwys. Fe gewch hyd i gyfarwyddiadau ynglŷn â sut i wneud hyn a chyngor ynghylch gwahodd eich AS lleol i weld eich baner, yn ogystal â phatrymlun o ddatganiad i'r wasg ar gyfer eich papur lleol yma (yn Saesneg yn unig): https://caid.org.uk/actonpovertyact

**Gweddi i Gloi**

Iesu, helpa ni i glywed dy alwad i fod yn ddisgyblion. Fel Lefi, boed i ninnau ddilyn dy arweiniad di.
Dangos inni, Arglwydd, lle y dylen ni osod ein hunain yn dy wasanaeth di ac yng ngwasanaeth ein cymdogion.

Diolchwn iti, Iesu, am y mannau hynny sy'n golygu rhywbeth arbennig inni.
Diolch am y mannau lle byddwn yn clywed dy lais, mewn llonyddwch a thrwy leisiau eraill.
Bydd gyda ni, Arglwydd, wrth inni geisio cyswllt dyfnach o fewn ein cymunedau.
Helpa ni i wireddu dy deyrnas, yma, nawr.
Amen.

## Eglwysi Ynghyd Rhydaman

I ddathlu'r Pasg bydd eglwysi Rhydaman yn cynnal Pererindod ar Ddydd Gwener y Groglith. Byddwn yn teithio o gwmpas eglwysi a chapeli'r dref, gan gynnal addoliad byr y tu allan i bob un ohonynt. Am fwy i wybodaeth, cysylltwch gyda Emyr Gwyn Evans emyrgwyn@btinternet.com

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 10 Mawrth am 7.30yh**

Ymunwch â Lowri Morgan wrth i ni nodi dau ddyddiad arwyddocaol, Sul y Mamau a Diwrnod Rhyngwladol y Merched. Cawn ddysgu am rai o fenywod nodedig y Beibl. A chawn fwynhau gwledd o ganu mawl a pherfformiad arbennig gan y triawd o chwiorydd dawnus, Sorela.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 10 Mawrth, am 7.30yb a 2yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Megan Williams

***Oedfa Radio Cymru***
**10 Mawrth, Sul y Mamau**

Oedfa dan ofal gweithwyr 'Plant Dewi', Esgobaeth Tyddewi.



(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Gweddi 2 – Beth mae'r Iesu yn ei ddysgu am weddi?

Mae treulio amser gyda Duw mewn gweddi yn y lle cyntaf yn rhoi clod i Dduw ond mae hefyd yn llesol i ni yn ysbrydol ac yn feddyliol. Y mae gweddïo a datblygu ein harfer o weddïo'n gyson cystal â gwell na'r holl therapi a chyngor a gawn ynglŷn ag iechyd meddwl. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi ein creu i fyw mewn perthynas ddyddiol gyda Duw, y creadur gyda'r crëwr mewn cyfeillgarwch agos. Mae gweddi yn dyfnhau y berthynas hon ac yn ein newid. Yn Exodus pennod 34 fe gawn hanes am Moses.

> Pan ddaeth Moses i lawr o ben Mynydd Sinai gyda dwy lechen y dystiolaeth yn ei law, doedd e ddim yn sylweddoli fod ei wyneb wedi bod yn disgleirio wrth i'r ARGLWYDD siarad ag e. Pan welodd Aaron a phobl Israel Moses yn dod, roedd ei wyneb yn dal i ddisgleirio, ac roedd ganddyn nhw ofn mynd yn agos ato.

Pan ddychwelai Moses wedi iddo fod ym mhresennol yr Arglwydd roedd ei wyneb yn disgleirio. Gellid gweld ar ei wyneb ei fod wedi bod ym mhresenoldeb Duw. Mae gweddi yn gadael ei ôl arnom, ar ein meddwl, ar ein hysbryd ar ein dealltwriaeth o'n ffydd ac o'r byd rydym yn byw ynddo.



**Beth mae'r Iesu yn ei ddweud am weddi? Dywed nifer o bethau. Dyma ddau ohonynt.**

**1. Enw'r Iesu**

Wrth i ni weddïo rydym i wneud hynny bob amser yn enw Iesu Grist. Pam hynny? Oherwydd Iesu yw'r ffordd i berthynas gyda Duw. Dywedodd fel hyn y Ioan 15:

> Nid chwi a'm dewisodd i, ond myfi a'ch dewisodd chwi, a'ch penodi i fynd allan a dwyn ffrwyth, ffrwyth sy'n aros. Ac yna, fe rydd y Tad i chwi beth bynnag a ofynnwch ganddo yn fy enw i.
>
> (Ioan 15:16, BCND)

Felly, yr unig ffordd y gallwn weddïo ar Dduw yw yn enw'r Iesu. Ni allwn ddod at Dduw a dweud, 'Arglwydd rwy'n dod atat ti yn gofyn hyn a'r llall oherwydd dwi'n dipyn o foi a dwi'n meddwl fy mod haeddu i ti wrando arnaf. Dwi wedi gwneud hyn, llall ac arall a dwi'n credu fod arnat ti un neu ddau o bethau i mi. Felly gwranda ar fy ngweddi.'

Dywedodd Iesu stori am berson yn gwneud hynny yn Luc 18:

> Aeth dau ddyn i weddïo yn y deml. Pharisead oedd un ohonyn nhw, a'r llall yn ddyn oedd yn casglu trethi i Rufain. Dyma'r Pharisead yn sefyll ar ei draed yn hyderus, a dyma oedd ei weddi: 'O Dduw, dw i yn diolch i ti mod i ddim yr un fath â phobl eraill. Dw i ddim yn twyllo na gwneud dim byd drwg arall, a dw i ddim yn gwneud pethau anfoesol. Dw i ddim yr un fath â'r bradwr yma! Dw i'n ymprydio ddwywaith yr wythnos ac yn rhoi un rhan o ddeg o bopeth sydd gen i i'r deml.'
>
> Ond roedd y casglwr trethi wedi mynd i sefyll mewn rhyw gornel ar ei ben ei hun. Doedd e ddim yn meiddio edrych i fyny hyd yn oed. Yn lle hynny roedd yn curo'i frest mewn cywilydd. Dyma oedd ei weddi e: 'O Dduw, wnei di faddau i mi. Dw i'n bechadur ofnadwy.'
>
> 'Dw i'n dweud wrthoch chi mai'r casglwr trethi, dim y Pharisead, oedd yr un aeth adre a'i berthynas gyda Duw yn iawn. Bydd Duw yn torri crib pobl falch ac yn anrhydeddu'r rhai gostyngedig.'
>
> (Luc 18:9–14)

Nid oes gen i unrhyw haeddiant ger bron Duw trwy fy ngallu na fy nuwioldeb fy hun. Rhaid pwyso ar ei ras rhyfeddol. Yr hyn sy'n ein gwahanu ni oddi wrth Dduw yw ein pechod, ond mae Iesu wedi delio gyda hwn trwy ei fywyd perffaith, ei farwolaeth a'i atgyfodiad, fel y gallwn ddod at yr Arglwydd yn hyderus. A dim ond yn enw'r Iesu y mae gennym haeddiant i ddod ger bron Duw y Tad mewn gweddi.

**2. Peidio amlhau geiriau**

Mae'r Iesu, hefyd, yn rhoi cyngor i'w ddisgyblion i beidio â gweddïo fel y paganiaid yn hir ac yn llawn rhwysg.

> A pheidiwch gweddïo fel y rhai sy'n gwneud sioe o'u crefydd. Maen nhw wrth eu boddau pan mae pobl yn edrych arnyn nhw yn codi i weddïo yn y synagogau neu ar strydoedd prysur ... Pan fyddi di'n gweddïo, dos i ystafell o'r golwg, cau y drws, a gweddïo ar dy Dad sydd yno gyda ti er dy fod ddim yn ei weld. Wedyn bydd dy Dad, sy'n gweld pob cyfrinach, yn rhoi dy wobr i ti. A phan fyddwch chi'n gweddïo, peidiwch mwydro ymlaen yn ddiddiwedd fel mae'r paganiaid yn gwneud. Maen nhw'n meddwl y bydd Duw yn gwrando am eu bod yn gweddïo mor hir. Peidiwch chi â bod fel yna. Mae'ch Tad chi'n gwybod yn union beth sydd ei angen arnoch chi cyn i chi ddweud gair.
>
> *(Luc 11:2–4)*

'Mwydro ymlaen.' Ha, Ha! Nid gweddïau rhwysgfawr cyhoeddus mae Duw yn ei geisio ond yn hytrach ein calon mewn gweddi ddirgel. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gweddïo yn gyson yn y dirgel. Gwnewch amser i hyn bob dydd. Ben bore, amser cinio gyda'r nos, ond gwnewch bwynt o weddïo pan mai dim ond chi a'r hollalluog sydd yn gwybod.

Y tro nesaf byddwn yn dechrau edrych a'r weddi'r Arglwydd fel canllaw gweddi.

## Saron Creunant

Eleni y mae eglwys Saron yn dathlu 120 o flynyddoedd ers ei sefydlu.

1904–2024

Fe'ch gwahoddwn yn gynnes i ymuno gyda ni am Sul o Fawl/Cymanfa ar yr 31 Mawrth am 4 o'r gloch Sul y Pasg.

Croeso cynnes i bawb

## Barn Annibynnol

# Cododd Iesu

Crwtyn deunaw oed (yn 1956). Roedd e'n drwm o dan ddylanwad Max Parker a Fred Moorhouse, swyddogion Cymdeithas y Cymod, a phobl fel Alun Edwards, Llyfrgellydd Ceredigion. Roedd y crwt eisoes wedi llenwi'r ffurflen oedd yn datgan na fyddai'n barod i fynd i wneud Gwasanaeth Cenedlaethol. Roedd hefyd wedi crwydro canol dinas Abertawe, yn cario poster yn cyhoeddi 'Honesty before Oil'. Roedd hi'n adeg Suez, a chynnydd sylweddol yng ngweithgaredd CND. I'r crwtyn ifanc, roedd y syniadau hyn am gymod a heddwch yn gwbl normal, a dim llai na synnwyr cyffredin.

Pwy yn y byd allai gefnogi lladd? Onid yw amynedd, goddefgarwch, maddeuant a gras yn hanfodol i fywyd gwâr?

Beth ddaeth o'r crwtyn erbyn hyn?

Mae e'n gorfod byw ei hen ddyddiau dan gysgod tywyll Putin, Netanyahu a Hamas. Ydy bod rhai ohonom yn deisyfu heddwch yn debyg o achosi cywilydd i'r rhain am y lladd y maent yn rhan ohono? Y plant a'r diniwed yn dioddef mor enbyd. Mae'n edrych yn dywyll ar unrhyw ymdrech i'w hannog i estyn llaw, gan ddweud, 'Mae'n flin iawn gen i ...'

Gwaetha'r modd, dyna fel y bu hi erioed. I bob Netanyahu, mae yna Hamas. I bob Putin a threisiwr, bu llu o Glyndwriaid, a'r canlyniad oedd dioddef enbyd bob tro. Mae trais a gormes yn achosi ymateb sy'n tynnu'r tŷ am eu pennau. Y mae pob Hitler a Napoleon wedi achosi poen wrth ymosod, ac yn aml fe grëwyd mwy o boen gan yr ymateb iddynt.

### Y mae cariad

Felly, beth sy'n bosibl i'w wneud? Oes ymwared rhag yr holl erchylltra? Mae'n wir fod miwsig hyfryd yn codi o hyd o'r gwaed a'r lludw. Mae apêl y Bregeth ar y Mynydd yn gwrthod distewi. Mae hi'n bregeth sy'n dal i lefaru, lle mai'r llais cryfa yw trais am drais, terfysg am derfysg, a lladd am ladd. Arfogi yw'r ymateb poblogaidd bob tro, ac mae'r lladdedigion yn troi'n wroniaid. Yng nghanol hyn i gyd, mae yna lais distaw nad oes modd distewi arno.

Er bod newyn ac erchyllterau ar bob tu, y mae hefyd ofal.
Er bod gorthrwm a gormes yn egnïo, y mae tynerwch.
Er bod amheuon ac anobaith, y mae ffyddlondeb.
Er bod ofn a thor calon, y mae cysur.
Er yr holl boen a phob casineb, y mae cariad.

### Syfrdanol

Nawr yn hen – mwy na 70 mlynedd yn ddiweddarach – mae'r crwt hwnnw'n dal gafael ar wirionedd sylfaenol iddo: er gwaethaf pob anfadwaith a'r methiannau dynol ar hyd ffordd angau, mae'n cael ei syfrdanu gan y cyhoeddiad, 'Cododd Iesu!' Tra bod ailenedigaeth i fywyd, a naws, awyrgylch, a safonau yr Un hwnnw yn arwain at fywyd, mae ffordd i fywyd, a hwnnw'n fywyd helaeth. Yr hyn sy'n tristáu yr hen ŵr yn fwy na dim yw bod cymaint o bobl a sefydliadau yr Efengyl yn tindroi o amgylch yr arferol, llonydd, a marw, tra bod dyfroedd byw yn diflannu trwy eu bysedd.

Diolch yn fawr am gael y cyfle dros flynyddoedd lawer i fynegi barn yn *Y Tyst*. I'r awdur hwn, mae'n bryd rhoi lle i rywrai ifanc. Pob bendith.

**Eirian Rees, Efailisaf**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

*[Hwn yw'r Barn Annibynnol olaf gan Eirian Rees felly hoffem ddiolch iddo am ei holl gyfraniadau meddylgar a heriol tros y blynyddoedd. Gwerthfawrogwn yn fawr ei weledigaeth a'i ffyddlondeb i waith yr Arglwydd tros y degawdau. Gol.]*



✦ Cyfres Newydd ✦ Cyfle Newydd ✦ Ffurf Newydd ✦

Cyfle gwych i ymuno mewn cyfres o chwe sesiwn fydd yn archwilio gwahanol agweddau o fywyd eglwysig.

✦ Gweddïo ✦ Arwain Addoliad ✦ Pregethu ✦ Beth yw Eglwys ✦
✦ Gwaith Plant ac Ieuenctid ✦ Gwedd Ddigidol Eglwys ✦

**Dyddiadau:**
08/01 22/01 05/02 19/02 04/03 18/03

**Amser:**
7:00 - 9:00 o'r gloch yr hwyr.

**Lleoliad:**
Bydd modd ymuno yn y sesiynau hyn drwy fynychu eich Hwb Hyfforddi lleol. Manylion llawn pob lleoliad ar y daflen wybodaeth.



Awydd ymuno? Croeso cynnes i bawb!

Trefnir y sesiynau hyn fel rhan o gynllun Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | Gwybodaeth pellach: carwyn@annibynwyr.cymru

| Dyddiad | Testun | Arweinydd |
|---|---|---|
| Mawrth 18 | Gwedd Ddigidol Eglwys | Rhodri Darcy |

Cynhelir pob sesiwn rhwng 7.00 a 9.00 o'r gloch yr hwyr

NOSON LANSIO

**Tymor Da**

cyfrol newydd o gerddi'r Prifardd Robat Powell

Neuadd Capel y Nant, Clydach, SA6 5HB

**Nos Fercher, 13 Mawrth, 7.00pm**

Mynediad am ddim!
Croeso cynnes i bawb!

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# CODAU CYFRIN *– parhad*

## Chwilotair

Mae chwilio am godau cyfrin yn y Beibl yn debyg i bos *word search*. Gellir edrych ar eiriau lletraws neu bob yn ail air er enghraifft am neges guddiedig. Golyga hyn fod llawer o batrymau posibl ar gael i'r ymchwilydd. Yn ôl yr ystadegydd Jeffrey Rosenthal dylid disgwyl gweld negesau cuddiedig ac felly ni ddylid eu trin fel negesau dwyfol. Dangoswyd hyn gan y mathemategydd Brendan McKay a ddarganfu cyfeiriadau yn nofel Herman Melville (*Moby Dick*) at lofruddiaeth cyn brif weinidog Israel, Yitzhak Rabin, ynghyd â chyfeiriadau at y dywysoges Diana a Dodi Fayed.

Mae pobl yn dueddol o gredu'r hyn a ddymunant yn lle'r gwirionedd gwrthrychol. Er mor ddeniadol yw'r syniadau hyn, eto nid oes gennym y llawysgrifau gwreiddiol o'r Beibl ond copïau ohonynt ac felly nid yw'n bosibl tynnu codau cyfrin cywir o'r Beibl. Efallai bod hyn oll yn tynnu'n sylw oddi wrth neges blaen y Beibl.

## Patrymau

Gwir fod yna batrymau penodol yn y Beibl e.e. rhennir Salm 119 mewn ffordd acrostig yn ôl llythrennau'r wyddor Hebraeg. Amcangyfrifir bod tua 350 o broffwydoliaethau yn yr Hen Destament am yr Arglwydd Iesu Grist a ddywedodd fod yr ysgrythurau'n *tystiolaethu amdanaf fi* (Ioan 5:39). Ac mae llyfr Datguddiad yn frith o negesau dirgel.

Mae Duw yn celu rhai pethau oddi wrth ddynion ac yn datgelu pethau eraill iddynt, e.e. Mathew 13:10–17. Eto er mwyn ei ddatguddio Ei Hun i ni y rhoddodd Duw Ei Air i ni. Cyhoedda gariad mawr Duw tuag at bobl yn Iesu Grist trwy'r Ysbryd Glân a'r gorchymyn i ni edifarhau o'n pechod a chredu yn Iesu am faddeuant.


Er na wêl y byd Grist eto mae'r Cristion wedi'i osod ynddo Ef. 'Y mae eich bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw.' Colosiaid 3:3) Ond, 'pan amlygir Crist, eich bywyd chwi, yna fe gewch chwithau eich amlygu gydag ef mewn gogoniant.' (Colosiaid 3:4) Y dydd hwnnw ni fydd dim yn guddiedig.

Y cysur i gyd
sy'n llanw fy mryd
fod gennyf drysorau
uwch gwybod y byd;
ac er bod hwy 'nghudd,
nas gwêl neb ond ffydd,
ceir eglur ddatguddiad
ohonynt ryw ddydd.

William Williams.

**Peter Davies**







*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*